Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Rhyd y Llan

Ysgol Rhyd Y Llan
Llanfaethlu
Ynys Mon
LL65 4PQ

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Rhyd y Llan

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Rhyd y Llan |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwen Williams |
| Person â gofal | Sioned Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 2 ½ - 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 11 o blant tair-blwydd oed a 5 o blant pedair-blwydd oed |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener o 9:00yb tan 3:00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma yr arolwg cyntaf ers ail-gofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/04/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/03/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cryfhau cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau datrys problemau yn ystod eu dysgu yn gyson

A2 Sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu arferion a gweithgareddau y lleoliad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu'n hyderus drwy siarad a mynegi eu hunain yn effeithiol a thrafod eu gweithgareddau dyddiol yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn archwilio'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn llawn diddordeb ac maent yn cael hwyl yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn mwynhau amser tawel yn yr ardal gyfforddus yn darllen llyfrau ac edrych ar storïau cyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus, yn teimlo'n ddiogel ac yn ymgartrefu'n dda. Maent yn gyfarwydd â'r drefn dyddiol ac yn setlo'n gyflym wrth gael eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar gan yr ymarferwyr. Maent yn barod iawn i ofyn i'r ymarferwyr am gymorth neu am gysur, pan fo'r angen yn codi. Mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r ymarferwyr ac yn mwynhau ymuno yn y canu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r ymarferwyr ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill ac yn datblygu agweddau positif tuag at ei gilydd, er enghraifft, yn ystod amser byrbryd. Maent yn dangos caredigrwydd drwy helpu eu ffrindiau i ddefnyddio'r gefeiliau i ddewis eu ffrwythau. Maent yn dysgu rhannu wrth chwarae gyda'r adnoddau sydd ar gael, ac yn disgwyl eu tro er mwyn cadw eu hesgidiau yn daclus. Mae rhan fwyaf o blant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn weithgar ac yn mynegi mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu wrth ymchwilio  eu hamgylchedd yn ddiogel. Mae ganddynt lais effeithiol i ddewis a datblygu eu syniadau'n bwrpasol. Maent yn ymgymryd i'r rhan fwyaf o dasgau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol yr ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn dewis gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae eu hunain yn hyderus. Mae'r plant yn mwynhau archwilio'r hambwrdd thematig sy'n ymwneud â'r Gwanwyn. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau creadigol wrth greu lluniau ar y bwrdd digidol a creu cerdyn Pasg i'w teuluoedd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio wrth addurno'r goeden wyau Pasg, a gosod yr addurniadau yn ofalus ar y gangen.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd cynnes, cadarnhaol ac iach gyda'r plant, gan greu amgylchedd ble mae pawb yn teimlo'n ddiogel. Maent yn modelu medrau cymdeithasol pwysig megis gwrando, rhannu a dangos empathi. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu i ryngweithio'n barchus â'i gilydd ac yn datblygu hyder wrth gymryd rhan mewn chwarae cydweithredol.

Mae'r ymarferwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chadw'r plant yn ddiogel. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn hybu'r plant i fod yn weithgar ac i chwarae allan yn yr awyr iach yn rheolaidd. Maent yn atgoffa'r plant yn gyson i olchi eu dwylo ac yn arwain gweithgaredd brwsio dannedd hwyliog sy'n cefnogi datblygiad eu harferion hylendid personol yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo y plant i gymdeithasu yn ystod amseroedd bwyd ac yn eu cynorthwyo i fwyta'n iach gan sicrhau bod dŵr yfed ffres a llefrith ar gael yn hwylus. Mae'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i oedran y plant. Maent yn cynnal ymarferion tân yn gyson ac yn cofnodi presenoldeb yr ymarferwyr a'r plant yn unol ar canllawiau. Mae damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi yn glir ac mae llofnod y rhieni yn dangos eu bod wedi eu hysbysu o'r digwyddiad. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cymorth sensitif ac ymatebol i bob plentyn. Maent yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant yn setlo a bod eu profiadau chwarae a dysgu yn gadarnhaol. Maent yn ymateb i anghenion unigol y plant yn dda gan sicrhau amgylchedd gynhwysol. Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau'n effeithiol ac yn dilyn trefniadau cadarn i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn synhwyrol.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i adeiladu hyder y plant, gan ymateb i'w dewisiadau a threfnu profiadau diddorol. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant ac yn bodloni eu hanghenion unigol yn bwrpasol. Mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant archwilio deunyddiau celf cyfoethog, megis paent a defnyddiau naturiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog mynegiant personol ac yn helpu'r plant i ddatblygu

dychymyg bywiog. Mae'r ymarferwyr yn olrhain cynnydd plant yn effeithiol ac yn defnyddio'r arsylwadau hyn i greu gweithgareddau chwarae a dysgu ystyrlon. Maent yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, ac yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac maent yn eu cymell yn effeithiol. Maent yn cynllunio cwricwlwm ddiddorol sy'n ysbrydoli'r plant i fod yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddysgu, gan eu hannog i ddyfalbarhau'n llwyddiannus. Mae arsylwadau manwl o ddysgu'r plant yn llywio cynllunio'r ddarpariaeth yn fwriadus. Defnyddiant ddulliau holi penagored yn gyson sy'n annog y plant i gyfathrebu â nhw'n briodol ac yn symud eu dysgu ymlaen.

Trwy ddull cynllunio cytûn, mae ymarferwyr yn addasu eu cynllunio'n synhwyrol ac yn ymateb yn amserol i lais a diddordebau'r plant, gan ddarparu profiadau ysgogol a pherthnasol ar eu cyfer. Er enghraifft, yn dilyn diddordeb mewn adar, mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau perthnasol fel creu daliwr bwyd adar ac arsylwi ar adar amrywiol sy'n ymweld gan ddefnyddio sbienddrych. Mae hyn yn cefnogi plant i ddatblygu ystod dda o fedrau, gan ddwysau eu chwilfrydedd a synnwyr o ryfeddod at natur yn fwriadus.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd plant. Maent yn modelu iaith yn gadarn ac yn rhyngweithio'n bwrpasol i gyfoethogi iaith y plant, gan eu hannog i sgwrsio a mynegi eu hanghenion yn hyderus. Er enghraifft, maent yn annog canu rhigymau Cymraeg yn gyson ac yn cyflwyno geirfa a chwestiynau pwrpasol wrth drafod y tywydd a theimladau.

Mae ymarferwyr yn cynnal cyfnodau darllen rheolaidd y mae'r plant yn eu mwynhau yn fawr. Maent yn darparu llyfrau ar draws yr ardaloedd dysgu a sachau stori creadigol sy'n annog y plant i ddod yn gyfarwydd â llyfrau o oedran cynnar yn fwriadus. Trwy ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol i wneud marciau mewn gwahanol gyd-destunau, mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar y plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu eu henwau'n gynyddol hyderus ar gardiau a grëwyd yn feddylgar ar gyfer Sul y Mamau.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod dda o gyfleoedd ac adnoddau i feithrin medrau rhifedd y plant. Maent yn sicrhau bod adnoddau addas, fel cynwysyddion o wahanol feintiau yn hygyrch yn y gegin fwd a'r twb dŵr i annog plant i archwilio ac arbrofi. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio pipedau yn bwrpasol i lenwi a thywallt rhwng cynwysyddion wrth greu persawr blodeuog. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth y plant o fesur a chymharu drwy brofiad ymarferol bwriadus yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i

ddatblygu medrau digidol cynnar y plant trwy ddefnyddio adnoddau addas yn yr ardaloedd chwarae, fel ffonau digidol, til drydanol a chyfarpar cyfathrebu.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn bwrpasol trwy weithgareddau egnïol yn yr ardal tu allan sy'n cryfhau eu medrau cydsymud a'u cydbwysedd yn fuddiol. Yn gyffredinol, maent yn annog plant i arbrofi a mentro yn eu chwarae a'u dysgu. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i blant gymryd risgiau priodol yn annibynnol ac i ddatblygu eu medrau datrys problemau'n llawn.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol a chyson i blant ddatblygu eu medrau creadigol. Maent yn eu hannog i arbrofi a chymysgu paent yn y gornel greu, yn ogystal â defnyddio adnoddau naturiol a gasglwyd i greu ffyn hud yn grefftus. Cynllunnir cyfleoedd cyson gan ymarferwyr i gefnogi datblygiad creadigol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn effeithiol ac yn darparu profiadau diddorol i ddatblygu dealltwriaeth o amrywiaeth. Er enghraifft, mae plant yn dysgu am wyliau pwysig fel y Diwali trwy efelychu patrymau rangoli'n greadigol yn y twba tywod ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol gan gynnwys dysgu am ddiwylliant Tsieina. Mae'r ymarferwyr yn trefnu gweithgareddau crefft i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen ac yn codi ymwybyddiaeth plant o'u treftadaeth Gymreig fel chwarae offerynnau i ddathlu diwrnod miwsig Cymru. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd naturiol trwy blannu tatws a bylbiau Cennin Pedr. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol ac ymwelwyr yn briodol i gyfoethogi profiadau dysgu.

### Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae sy'n ddiogel, yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod mesurau diogelwch effeithiol ar waith i reoli mynediad i mewn ac allan o'r lleoliad. Mae drysau wedi'u cloi ac mae cofnod o ymwelwyr yn cael eu cadw. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i blant gyrraedd.

Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol sy'n amlinellu'n fras y camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Er hyn, nid yw'r rhain yn gwbl adlewyrchu arferion y lleoliad a'r gweithgareddau yn ddigon clir. Mae'r arweinwyr wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau yn dda. Maent yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn gwybod sut i ymateb i unrhyw argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda. Mae hyn yn galluogi'r plant i symud o gwmpas yn rhydd, gan ddewis i

ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o deganau, adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o adnoddau naturiol i feithrin medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae teganau ac adnoddau wedi eu gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant, sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau am yr hyn y maent eisiau defnyddio. Mae gan y lleoliad ardal addas i blant gadw eu heitemau personol sy'n creu ymdeimlad o berthyn. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o falchder yn eu plith. Mae amrywiaeth dda o lyfrau ar gael, ac maent yn cael eu harddangos yn drefnus, gan annog y plant i'w darllen.

Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd awyr agored yn sbarduno diddordebau a chwilfrydedd plant. Er enghraifft, mae plant yn cael hwyl yn llithro lawr y llithren ac ymarfer eu sgiliau taflu a dal pêl. Mae'r arweinwyr wedi trefnu man clyd awyr agored deniadol lle mae plant yn mwynhau darllen llyfrau. Maent yn cynnwys amrywiaeth o offer, adnoddau a chyfarpar i feithrin sgiliau corfforol, creadigol a dychmygol y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y byd naturiol ac maent wedi trefnu ardaloedd iddynt blannu llysiau a thyfu blodau i feithrin eu sgiliau garddio.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r arweinydd yn angerddol ac yn gydwybodol sy'n arddel disgwyliadau uchel a chytûn i'r holl ymarferwyr yn effeithiol. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n canolbwyntio ar ddarparu amgylchedd ofalgar a chroesawgar lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn dysgu trwy chwarae. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn ymateb yn sensitif i anghenion pob plentyn, gan sicrhau profiadau dysgu difyr a pherthnasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd.

Mae'r datganiad o ddiben yn addas ac yn rhoi gwybodaeth glir i rieni. Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi gofal a datblygiad y plant. Mae trefniadau recriwtio ac ymsefydlu cadarn ar waith, ac mae prosesau rheoli perfformiad effeithiol yn sicrhau bod gwaith ymarferwyr yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd. Mae gan bob ymarferydd gymwysterau a disgrifiadau swydd priodol, sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau.

Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso'n briodol i lywio gwelliant. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys blaenoriaethau clir, targedau addas a chamau gweithredu pwrpasol gyda ffocws parhaus ar wella ansawdd y ddarpariaeth a hybu lles a medrau'r plant. Darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol i ymarferwyr. Er enghraifft, mae

hyfforddiant ar ddefnyddio symudiadau ac ystum di-eiriau wedi arwain at wella medrau cyfathrebu a rhyngweithio plant yn yr ardaloedd.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau'n effeithiol, gan flaenoriaethu gwariant yn unol â'u blaenoriaethau yn ddoeth, fel buddsoddi'n bwrpasol yn yr ardal allanol i greu amgylchedd dysgu ysgogol a chyffrous i blant. Trwy fentrau codi arian gwerthfawr, maent wedi ehangu'r ddarpariaeth darllen yn yr ardaloedd drwy ddarparu llyfrau dwyieithog a sefydlu llyfrgell fenthyg i deuluoedd wrth gât y lleoliad. Mae hyn yn meithrin diwylliant darllen cadarn ac yn cefnogi rhieni i ddatblygu medrau llythrennedd eu plant gartref yn fwriadus.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n agos â swyddogion yr awdurdod lleol a mudiadau eraill i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae ganddynt gysylltiadau cadarn gyda'r ysgol leol, sy'n cynnwys trefniadau pontio effeithiol a sefydledig. Mae hyn yn cefnogi plant yn llwyddiannus wrth iddynt drosglwyddo'n esmwyth i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Elfen nodedig o waith y lleoliad yw'r berthynas agos a chynhyrchiol rhwng ymarferwyr, rhieni a gofalwyr. Trwy fentrau ystyrlon fel sesiynau 'Crefft a Chlebran' tymhorol, mae rhieni'n cydweithio'n effeithiol â'u plant mewn gweithgareddau creadigol ac ymarferol, ac yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd a chyflawniadau eu plant gyda'r ymarferwyr. Mae cyfathrebu rheolaidd, gan gynnwys defnydd o ap digidol, yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth gyfredol am les a datblygiad eu plant sy'n eu galluogi i gefnogi eu lles a'u dysgu yn bwrpasol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/06/2026